GambleAware

# Cofnodion Panel Cynghori Cymru

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Gwener 1af Tachwedd 2019 |
| **AMSER** | 11.30am – 1.30pm |
| **LLEOLIAD** | Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4LG |

| **YN BRESENNOL** | **BLAENLYTHRENNAU** | **NODIADAU** |
|---|---|---|
| Glen Dighton | GD | Myfyriwr PhD, Prifysgol Abertawe |
| Adele Duncan | AD | Cymdeithas Gordon Moody |
| Wynford Ellis Owen | WEO | The Living Room, Cardiff / Beat the Odds / CAIS |
| Graham England | GE | Ara |
| Alison Fisher | AF | Heddlu De Cymru |
| Katie Fry | KF | Cyngor ar Bopeth |
| Rachel Hassan | RH | GamCare |
| Ann John | AJ | Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe |
| Dee Lally Osborne | DLO | The Living Room |
| Charlotte Meller | CM | Y Comisiwn Hapchwarae |
| Dafydd Meurig | DM | CLlLC |
| Teresa Owen | TO | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd BCUHB (Cadeirydd) |
| Lee Phillips | LP | Grŵp Cyngor Arian a Phensiynau |
| Robbie Thornhill | RT | Ara |
| Diana Yorath | DY | Ara Cymru |
| **YN BRESENNOL** | | |
| Jason Heffron | JH | Gweinyddwr Digwyddiadau, GambleAware |
| John McCracken | JM | Cyfarwyddwr Comisiynu, GambleAware |
| Jane Rigbye | JR | Cyfarwyddwr Addysg, GambleAware |
| Amy Sweet | AS | Rheolwr Ymchwil, GambleAware |
| **YMDDIHEURIADAU** | | |
| Simon Dymond | SD | Prifysgol Abertawe |
| Amanda Gilroy | AG | Ara |
| Anna Hemmings | AH | GamCare |
| Alice E. Hoon | AEH | Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe |
| Sarah Johns | SJ | Awdurdod Lleol Sir Benfro |
| Sarah Meredith | SM | Llywodraeth Cymru |
| John Wainwright | JW | Heddlu De Cymru |
| Simon Wilkinson | SW | CLlLC |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd TO bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd a nodwyd yr ymddiheuriad fel uchod.

## 2. Datganiadau o fuddiant

Ni chafodd unrhyw rai eu datgan.

## 3. Cofnodion cyfarfod 15fed Ebrill 2019

Ni gynigiwyd unrhyw newidiadau i gofnodion y cyfarfod blaenorol. Diweddarodd WEO y Panel ar ddiwrnod person ifanc Beat the Odds Wales a nododd lefel dda o ymgysylltu gan bobl ifanc yn ystod y dydd. Mae recordiad llawn y dydd ar gael yn www.beattheodds.wales.

## 4. Cylch Gorchwyl

Cyflwynodd JM newid i'r cylch gorchwyl i'r panel a oedd wedi'i awgrymu ym Mhanel Cynghori'r Alban. Roedd y newid i gymal 1.4 o'r ddogfen aelodaeth, sef bod yn rhaid i'r panel *"gytuno ymlaen llaw ar bresenoldeb unrhyw gynrychiolwyr o'r diwydiant a fydd yn cael eu gwahodd i fynychu ar gyfer y rhannau perthnasol y cytunwyd arnynt o unrhyw gyfarfod yn unig."*

Cymeradwywyd y newid arfaethedig i gymal 1.4 o'r Cylch Gorchwyl gan y panel.

Tynnodd CM sylw at yr angen i ddiweddaru terminoleg yng nghymal 1.5 o "RGSB" i "ABSG".

Cymeradwywyd y newid i gymal 1.5 o'r Cylch Gorchwyl gan y panel.

Gofynnodd WEO i ddogfennau perthnasol WAP gael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl.

CAM GWEITHREDU – JH i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl, ac archwilio'r ddarpariaeth o ddogfennau WAP yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 5. Gweithredu Strategaeth y Comisiwn Hapchwarae

Arweiniodd CM drafodaeth ar strategaeth y Comisiwn Hapchwarae i leihau niwed gamblo. Anogwyd aelodau'r panel i danysgrifio ar gyfer cylchlythyr y Comisiwn Hapchwarae ar gynllun gweithredu'r strategaeth drwy gysylltu â communications@gamblingcommission.gov.uk. Rhannodd CM y cynnig gweithio presennol i gynnull cyrff statudol yng Nghymru i olrhain cynnydd y strategaeth. Roedd CM yn awyddus i gydlynu cyfarfodydd y grŵp hwnnw â chyfarfodydd Panel Cynghori Cymru er mwyn osgoi dyblygu trafodaethau.

CAM GWEITHREDU – CM a JM i drafod dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

Tynnodd WEO sylw at y cymorth Ysgrifenyddiaeth mae'n ei roi i grŵp trawsbleidiol Cymru ar gamblo problemus ac awgrymodd gydlynu'r strategaeth weithredu ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y grŵp hwn.

Gofynnodd LP am ryngweithio ag ehangu un gwasanaeth cynghori Cymru.

CAM GWEITHREDU - KF i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol sector cynghori Cymru i LP.

Cadarnhaodd TO barodrwydd i gyfrannu at gynlluniau gweithredu.

Tynnodd AD sylw at y cyfraniad y gallai'r sector gwirfoddol ei wneud i weithredu'r strategaeth.

CAM GWEITHREDU: CM i roi'r holl adborth i'r Comisiwn Hapchwarae a bydd yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Aelodau'r panel i gysylltu â CM yn uniongyrchol gydag unrhyw bwyntiau ychwanegol.

## 6. Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru

Rhannodd JM sleidiau gan Lywodraeth Cymru ar ran SM.

Adroddodd KF fod Cyngor ar Bopeth wedi cynnal digwyddiad pen-blwydd yn 80 mlwydd oed yn y Senedd a bod yr arddangosfa o gwaith i leihau niwed gamblo a gafodd ei arddangos wedi cael derbyniad da gan Aelodau'r Cynulliad.

Tynnodd TO sylw at yr angen i sicrhau y byddai datblygu strategaethau yn adeiladu ar systemau sy'n bodoli eisoes.

## 7. Triniaeth

- *Gweithgarwch y Llinell Gymorth ac Ara*

  Diweddarodd GE y cyfarfod ar weithgarwch Ara Cymru. O ganlyniad i fentrau codi ymwybyddiaeth gan Ara, roedd galwadau i'r Llinell Gymorth Gamblo Cenedlaethol o Gymru wedi codi'n sylweddol, fel yr oedd atgyfeiriadau i driniaeth. Roedd gan Ara Cymru ei rif ffôn uniongyrchol ei hun yng Nghaerdydd, ac nid oedd angen cyfeirio galwadau drwy rif Ara ym Mryste.

  Dywedodd RH fod oriau'r llinell gymorth yn 24/7 ers Hydref 1af.

- *Datblygu lleoliadau ychwanegol*

  Rhannodd WEO wybodaeth am wasanaethau BeatTheOdds yng Nghymru.

- *Ymgysylltu rhwng ARA a'r sector statudol*

  Cyfeiriodd GE at waith parhaus Ara gyda'r system cyfiawnder troseddol.

- *Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys*

  Siaradodd AF am y gwaith parhaus o fewn system cyfiawnder troseddol Cymru i sgrinio am niwed gamblo. Dywedodd AF y byddai gwarediadau y tu allan i'r llys i'r rhai sydd â thystiolaeth o niwed gamblo yn cael eu cynnig o fis Ionawr ymlaen.

- *Triniaeth y GIG ar gyfer gamblo yng Nghymru*

  Rhoddodd JM y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu darpariaeth y GIG yng Nghymru.

Trafododd TO yr egwyddorion arweiniol cyffredinol ar gyfer unrhyw driniaeth gan y GIG yng Nghymru.

CAM GWEITHREDU - Cytunodd JM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y cyfarfod nesaf.

## 8. Ymyriad cynnar a llwybrau cyfeirio

Trafododd KF weithgarwch presennol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, gan dynnu sylw at y cydweithio agos oedd yn bodoli rhwng y ddwy ganolfan Cyngor ar Bopeth ac Ara.

Siaradodd SM a WT am hyfforddi gweithwyr Chwaraeon Cymru i sgrinio am niwed gamblo.

Trafododd DY Ara yn ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Pwysleisiodd DM bwysigrwydd osgoi dyblygu gwasanaethau. Cynigiodd KF gymorth i CM i fapio'r gwasanaethau a ddarperir gyda'r nod o osgoi dyblygu.

CAM GWEITHREDU - llwybrau awdurdodau lleol i'w cynnwys ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

## 9. Ymchwil yng Nghymru ac ar gyfer Cymru

Diweddarodd AS y Panel ar fwriad GambleAware i weithio gyda'r gymuned ymchwil yng Nghymru i ddeall ac adeiladu capasiti a gallu ymchwil yn well.

CAM GWEITHREDU – gwahoddwyd holl aelodau'r Panel i awgrymu bod ymchwilwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunwyd y dylai ymchwil fod yn eitem sefydlog ar yr agenda.

Rhoddodd GD amlinelliad byr o'i PhD ar gyn-filwyr ac ymddygiad gamblo.

## 10. Merched a Gamblo

Cyflwynodd AD sleidiau ar wasanaethau triniaeth breswyl Gordon Moody i ferched.

## 11. Ymgyrch Gamblo Mwy Diogel

Darparodd JR y wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am gynnydd ymgyrch Bet Regret.

CAM GWEITHREDU – JR i ddosbarthu cofnodion Bwrdd Ymgyrchu Gamblo Mwy Diogel i'r Panel unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo.

## 12. Unrhyw fusnes arall

Tynnodd GE sylw at y grŵp Experts by Experience a fyddai'n cael ei gynnal yng Nghymru yn y Flwyddyn Newydd.